GWYNEDD WERDD
GREEN GWYNEDD

# Adroddiad Blynyddol

# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
# Cyngor Gwynedd

## 2024/25



# Cynnwys


1. Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd **2**
2. Cefndir **3**
3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 **4**
4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol **6**
5. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2023/24 **8**
6. Adeiladau ac Ynni **11**
7. Symud a Thrafnidiaeth **17**
8. Gwastraff **22**
9. Llywodraethu **25**
10. Caffael **27**
11. Defnydd Tir **29**
12. Ecoleg **32**

# 1. Rhagair Arweinydd y Cyngor



Mae'n bleser i gen i gyflwyno adroddiad sy'n rhoi trosolwg manwl o gynnydd Cyngor Gwynedd i wireddu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ystod 2024/25. Mae'n cynnwys data, gwybodaeth am brosiectau, a gwerthusiad ar draws sawl maes gweithredu.

Mae gweithredu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ran ganolog o'r gwaith i greu Gwynedd Werdd, sy'n un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028. Rydym yn ceisio newid sut mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn lleihau'r niwed ar y blaned, ac mae'n bwysig bod pob aelod etholedig a staff yn cyfrannu at y gwaith hwn. Wedi dweud hyn, nid ar chwarae bach mae newid arferion gwaith ac ymddygiad ac mae gennym her o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein huchelgais i fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

Er hynny, cymerwyd camau positif ymlaen yn ystod 2024/25. Drwy fuddsoddi mewn gosod paneli solar ar 66 safle rydym wedi lleihau ein costau ynni yn ogystal ag arbed carbon. Buom hefyd yn helpu trigolion i wneud y gorau o dechnoleg arbed ynni fydd yn ei dro, gobeithio, yn helpu i leihau'r broblem ddifrifol o dlodi tanwydd.

Rwy'n falch ein bod yn cymryd camau mawr ymlaen i newid ein fflyd i gerbydau trydan. Mae 43% o'n ceir a faniau bellach yn gerbydau trydan, a bydd y gweddill yn cael eu newid pan fydd oes y cerbyd yn dod i ben. Mae ein cefnogaeth i wasanaeth bysiau cyhoeddus Sherpa'r Wyddfa wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn defnydd eto eleni.

Rydym i gyd yn ymwybodol pa mor heriol ydi'r amgylchiadau ariannol presennol, felly mae'n rhaid i bob ceiniog o fuddsoddiad ariannol gennym fel Cyngor arwain at y gwerth gorau wrth leihau allyriadau carbon a lleihau costau. Ers 2019 mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi £6.8M mewn prosiectau sy'n rhan o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ond mae hynny wedi ein galluogi i ddenu £13.5M mewn grantiau gan gyrff allanol. Mae'r grantiau yma wedi bod yn hanfodol i fedru cyflawni ein gwaith, ac mae angen rhagor o gyllid os ydym am barhau â'r gwaith hanfodol hwn i'r dyfodol.

Cynghorydd Nia Jeffreys

Arweinydd Cyngor Gwynedd

# 2. Cefndir

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan yn glir bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn un o'i flaenoriaethau, ac mae Gwynedd Werdd yn un o 7 maes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.

Er mwyn deall rhagor am yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, trowch at y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) a fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Mawrth 2022.

Uchelgais y Cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

Mae'r uchelgais yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r sector gyhoeddus ar y cyd fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac i Gymru fod yn wlad sero net erbyn 2050.

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cynnwys nifer o brosiectau o fewn y prif themâu –

- adeiladau ac ynni
- symud a thrafnidiaeth
- gwastraff
- llywodraethu
- caffael
- defnydd tir
- ecoleg

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i holl awdurdodau lleol a chyrff y sector gyhoeddus yng Nghymru i gyflwyno data'n flynyddol ar eu hallyriadau ac amsugno carbon, gan ddefnyddio taenlen data sy'n gyffredin i bawb. Mae'r holl ddata yn yr adroddiad hwn wedi dynnu o'r data a gyflwynir i'r Llywodraeth.

Mae'r cynnydd yn y cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sydd ag aelodaeth o swyddogion ac Aelodau Cabinet a chynrychiolwyr o bwyllgorau craffu.

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o'r cynnydd sydd wedi ei wneud ym mhob un o brosiectau'r CAHN yn ystod blwyddyn 2024/25, sef y drydedd flwyddyn i'r cynllun fod yn weithredol.

Mae adroddiadau blynyddol blaenorol i'w gweld yma - Hinsawdd a natur: Cynlluniau, polisïau ac adroddiadau .

Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei graffu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 18 Medi 2025 ac yna bydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd.

# 3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN) yn datgan ein uchelgais: "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac **yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030**." Un o'r camau y gallwn ei gymryd er mwyn gwireddu hyn yw gweithredu ar gynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.

Mae 'Adran 6' yn nodi y dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain yn amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac annog gwytnwch. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus ystyried seilio eu cynllun dyletswydd Adran 6 hwythau ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n datblygu Cynllun Adfer Natur diwygiedig, ond yn y cyfamser rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol yn y CAHN. Tra fod gwarchod natur a bioamrywiaeth wedi ei wau drwy'r CAHN cyfan mae'r adrannau Defnydd Tir ac Ecoleg yn rhestru'r prosiectau fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

| | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 | Amcan 4 | Amcan 5 | Amcan 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau ac Ynni | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Symud a Thrafnidiaeth | | ✓ | ✓ | | | |
| Gwastraff | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Llywodraethu | ✓ | | | | ✓ | ✓ |
| Caffael | | | | | ✓ | ✓ |
| Defnydd Tir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ecoleg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |


# 4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol

## 2010 - 2019

Cyn bodolaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn gweithredu ers blynyddoedd i geisio lleihau ein ôl troed carbon. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Carbon 1 yn 2010 a Chynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015. Defnyddiwyd 2005/06 fel y flwyddyn waelodlin er mwyn mesur y data a'r cynnydd ar gyfer y ddau gynllun.

Drwy fuddsoddi oddeutu £8m mewn mesurau lleihau defnydd ynni rhwng 2010 a 2019 bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 58% yn y meysydd adeiladau, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd a gwastraff.

Gellir gweld y gostyngiad fesul maes yn y graff gyferbyn a theg dweud fod ein hymdrechion wedi arwain at gydnabyddiaeth genedlaethol sawl tro.




## Ers 2019

Ym mis Mawrth 2019, mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd, fe gyhoeddwyd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon. Y cam nesaf ar y daith hon oedd llunio strategaeth a chynllun gweithredu er mwyn i ni fod â rhaglen waith glir i'w dilyn.

Tra'n datblygu'r strategaeth daeth yn amlwg bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal, gan eu bod yn cyd-redeg mor agos â'i gilydd. Penllanw'r gwaith oedd cyhoeddi Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (CAHN) fis Mawrth 2022. Gweler bennod 2 'Cefndir' am ragor o fanylion.

## Mesur ein Allyriadau Carbon

Pan oedd y Cyngor yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Carbon 1 a 2 roeddem yn dilyn dulliau mesur allyriadau carbon cydnabyddedig y Carbon Trust, ac yn mesur cynnydd mewn 5 maes fel mae'r siart yn ddangos. Ers 2019 mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu trefn wahanol o fesur data carbon ac felly mae'r CAHN wedi defnyddio data blwyddyn 2019/20 fel gwaelodlin newydd. Gan fod amrywiadau bychan rhwng y ddwy drefn o fesur byddai'n gamarweiniol i wneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng data carbon cyn, ac ar ôl, 2019.

Rydym bellach hefyd yn mesur ein allyriadau carbon mewn meysydd ychwanegol – caffael, cymudo staff, a gweithio o gartref (ers 2021/22). Rydym hefyd yn mesur faint o garbon y mae ein tiroedd yn ei amsugno, ac wrth wrthbwyso'r ffigwr hwnnw yn erbyn cyfanswm yr allyriadau fe gawn ffigwr net, sef y bwlch i gyrraedd sero net.

# 5. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2024/25


Ein bwlch i sero net (**gan** gynnwys caffael) yn 2024/25 oedd 72,857,729 kg$CO_2$e.
Ein bwlch i sero net (**heb** gynnwys caffael) yn 2024/25 oedd 18,132,729 kg$CO_2$e.

Allyriadau
21,255,302
kg$CO_2$e



Amsugno
3,123,254
kg$CO_2$e

Bwlch
18,132,729
kg$CO_2$e





## Allyriadau Carbon

Mae'r siart cyntaf gyferbyn yn dangos ein allyriadau carbon dros 8 pennawd, ac yn cynnwys allyriadau caffael (prynu nwyddau a gwasanaethau).

Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith mae'r ail siart gyferbyn yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.




## Amsugno Carbon

Fel mae'r siart isod yn ei ddangos, mae lefelau amsugno carbon ar diroedd y Cyngor wedi gostwng 47% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, ond wedi cynyddu 1% rhwng 2023/24 a 2024/25.

Mae gostyngiad ers 2019/20 yn rhannol oherwydd bod newid yn y dulliau o gyfrifo ond hefyd am ein bod bellach yn berchen ar lai o hectrau o dir. Mae'r cynnydd ers 2023/24 oherwydd bod rhai llecynnau wedi newid o fod yn dir llwyd i fod yn laswelltir.


Gweler benodau 11 a 12 am ragor o fanylion am y gwaith a wnaethpwyd i gynyddu lefelau amsugno carbon ar diroedd y Cyngor.





## Ble ydym ni ar y daith o gyrraedd sero net erbyn 2030, ac ydi data 2024/25 yn dangos ein bod ar y trywydd cywir?

Dros y 6 mlynedd rhwng 2019/20 a 2024/25 fe wnaeth y Cyngor fuddsoddi £6.8M yn y prosiectau sydd yn y CAHN, ond fe wnaeth hynny fwy na dyblu yn ei werth gan i ni hefyd ddenu £13.5M mewn grantiau allanol dros yr un cyfnod.

Rhwng 2019/20 a 2024/25 bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 35% ar draws cyfanswm meysydd adeiladau ac ynni, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd, gwastraff, cymudo a gweithio o gartref.




Mae'r newid ers 2019/20 yn amrywio yn ôl y meysydd unigol, fel mae'r siart isod yn ei ddangos. Mae rhagor o wybodaeth am y rhesymau y tu ôl i'r newid i'w gweld ym mhenodau 6 – 12.




## Bwlch i Sero Net

Yn syml iawn, y bwlch i sero net ydi faint o CO2e sydd angen i ni ddileu er mwyn cyrraedd ein uchelgais: "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae cyfanswm y CO2e yn cael ei gyfrifo drwy dynnu gwerth cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugo allan o gyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru.

Wrth edrych ar ein data allyru ac amsugno carbon, **heb** ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 32% yn llai yn 2024/25 o'i gymharu â 2019/20 a 4% yn uwch nag yn 2023/24.




Bwlch sero net 2024/25 ydi 18,132,729 kg$CO_2$e. Mae hyn ychydig yn llai na'r allyriadau sy'n deillio o'n adeiladau, fflyd a chymudo gyda'i gilydd. Mae hefyd bron 6 gwaith yn fwy na gwerth amsugno ein tiroedd.

Bydd angen cwymp sylweddol mewn allyriadau a chynnydd sylweddol mewn lefelau amsugno os ydym am gyrraedd yr uchelgais i fod yn sero net erbyn 2030.

# 6. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o adeiladau ac ynni yn 2024/25 yn 49% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 14% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 8% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r allyriadau carbon o oleuadau stryd yn 2024/25 yn 3% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 36% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 1% o ostyngiad ers 2023/24.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau.
2. Dadgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor.
3. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel Passivhaus wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol.
4. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref.
5. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad.
6. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni.
7. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel.

### Be wnaethom ni?

Mewn gwirionedd mae pob un o'r prosiectau uchod wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod 'tymor byr' naill ai oherwydd bod gwaith cynnal a chadw yn gyfrifoldeb parhaus neu oherwydd ein bod wedi gweld cynnydd yn y galw am y gwaith.

**Prosiect 1** –Mae'r gwaith o wella ffabrig adeiladau er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni (prosiectau 1, 9 & 14) yn waith parhaus sydd wedi bod ar y gweill gennym fel cyngor ers dros ddegawd. Gweler wybodaeth am brosiectau 9 & 14 isod am ragor o fanylion.

Ein nod hirdymor yw cynllunio datblygiadau i ffabrig adeiladau drwy eu modelu yn y *Passivhaus Planning Package* (PHPP), sef

dull o ddylunio adeiladau sydd mor effeithlon o ran ynni a phosib.

**Prosiect 2 a 7 –** Mae'r Cyngor wedi parhau i gynyddu faint o drydan yr ydym yn ei gynhyrchu drwy baneli solar, sydd yn ei dro yn lleihau faint o drydan sydd angen ei brynu drwy'r grid cenedlaethol ac yn lleihau allyriadau carbon. Gweler adroddiad ar Brosiect 9 am ragor o wybodaeth.

Yn ystod 2023/24 a 2024/25 bu'r cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru, cwmni ARUP a rhanddeiliaid lleol er mwyn datblygu Cynllun Ynni Lleol. Bwriad y Cynllun Ynni Lleol yw creu system ynni carbon isel integredig ar gyfer Gwynedd, gan wella'r isadeiledd presennol fydd yn ei dro yn cefnogi pob sector i drawsnewid eu defnydd presennol o ynni. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd yn 2025/26 ond mae trafodaethau gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol yn parhau er mwyn cytuno sut all y cynllun gael ei weithredu a'i ariannu.

**Prosiect 3 –** Mae egwyddorion Passivhaus yn ystyriaeth wrth i'r cyngor gynllunio adeiladau newydd, ee. Ysgol Bontnewydd. Mae'r union ddulliau adeiladu yn cael eu cytuno fesul datblygiad. Gweler hefyd adroddiad ar Brosiect 14 am ragor o fanylion.

**Prosiect 4** - Mae ECO 4 yn gynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ond ei weinyddu gan y Cyngor. Mae'n darparu cyllid ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref fel system wresogi canolog newydd, uwchraddio i'r system wresogi bresennol a/neu inswleiddio a/neu baneli solar. Mae ein swyddogion trechu tlodi a chynghorwyr ynni wedi bod yn cynnal sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb yn ein cymunedau yn ogystal ag ateb ymholiadau drwy'r wefan neu dros y ffôn ac yn helpu trigolion i fanteisio ar gynllun ECO 4.

Rhwng Hydref 2022 a Ebrill 2025 bu gwelliant ym mherfformiad ynni 753 o dai trigolion Gwynedd. Fe newidiodd yr EPC (*Energy Performance Certificate*) er gwell, gyda 70 wedi cynyddu i A, 563 i B a 101 i C. Mae hyn yn golygu bod gwariant o dros £10M wedi ei wneud ar dai yng Ngwynedd ers cychwyn ECO 4.

Yn ogystal â chynllun ECO 4, yn ystod 2024/25 fe ddosbarthwyd 656 o dalebau ynni gwerth £24,719 i drigolion mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu. Ers dechrau'r cynllun yn 2022 mae 5,671 o dalebau ynni wedi'u rhannu, sydd wedi helpu pobl Gwynedd yn uniongyrchol.

**Prosiect 5** - Mae gennym systemau canolog ar gyfer rheoli gwres mewn adeiladau felly nid ydym yn gweld yr angen i symud ymlaen i osod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol ar hyn o bryd. Fe all yr angen hwn newid i'r dyfodol os fydd y prosiect Rhyngrwyd y Pethau (o fewn Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28) yn dangos bod gwerth ychwanegol i newid y drefn bresennol.

**Prosiect 6 –** Dechreuodd y prosiect hwn i newid lampau stryd a thraffig i rai LED yn 2016/17, a chwblhawyd y rhan helaethaf o'r

gwaith erbyn diwedd 2022/23 gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn defnydd o drydan a chostau ariannol.

Yn ystod 2022/23 fe fabwysiadodd y Cyngor y cyfrifoldeb am rannau helaeth o'r A487 o amgylch Caernarfon gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac yn sgil hyn nifer fawr o lampau stryd ychwanegol oedd angen eu newid i LED, wnaeth arwain at gynnydd eto mewn cost a defnydd o drydan.

Erbyn diwedd 2024/25 roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ychwanegol yma wedi ei orffen, ac er bod cynnydd o 1.2% mewn gwariant ar drydan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd y ffaith ein bod wedi gosod lampau LED yn arwain at 1% yn llai o allyriadau carbon. Er mor fychan yw'r allyriadau o oleuadau stryd (3% heb caffael), mae'r allyriadau hynny'n deillio o'r ffaith fod y trydan sy'n eu pweru yn dod o'r grid cenedlaethol.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiectau:**

8. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE.
9. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o baneli solar i greu ynni adnewyddadwy.
10. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon.
11. Gosod ffaniau awyru EC (*electronically commutated*) mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol.
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 8 –** Efallai mai'r dull symlaf ac amlycaf o leihau allyriadau o adeiladau yw lleihau'r galw a'r defnydd o ynni. Mae'r Cyngor wedi gosod System Rheoli Adeiladau mewn dros 100 o'n adeiladau, sy'n ein galluogi i ddarllen a rheoli defnydd o ynni o bell. Drwy fonitro'r system yma'n rheolaidd mae'n bosib adnabod unrhyw wastraff o ynni yn syth, a datrys y broblem. Mae'r gwaith monitro yma'n arbed tua £250,000-300,000 y flwyddyn, yn ogystal ag arbed allyriadau carbon.

Mae'r gwaith monitro hwn hefyd wedi dangos i ni bod ein defnydd o nwy wedi bod 10% yn uwch yn ystod 2024/25 nag yn 2023/24, a hynny oherwydd y bu 10% yn rhagor o ddiwrnodau tymheredd isel. Mae'r cynnydd hwn yn esbonio'r cynnydd o 8% mewn allyriadau o adeiladau yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn parhau yn ddibynnol ar nwy fel ffynhonnell gwres hyd nes y bydd ffabrig ein hadeiladau wedi eu haddasu, a'u bod yn barod ar gyfer pympiau gwres.

Mae pob prosiect arall hefyd yn cyfrannu at nod y prosiect hwn o leihau allyriadau carbon o'n hadeiladau.

**Prosiect 9** - Yn dilyn penderfyniad i fuddsoddi £2.8M gan y Cyngor er mwyn ymestyn ein cynlluniau i osod paneli solar PV, erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd paneli solar wedi eu gosod ar 66 o'n safleoedd.

Mae ychydig o oedi yn y rhaglen waith oherwydd daeth yn amlwg bod angen clymu'r gwaith hwn gydag unrhyw waith adnewyddu neu gynllunio ynni arall i adeiladau. Rydym hefyd yn cael ein cyfyngu i wneud gwaith ar adeiladau ysgolion yn ystod gwyliau ysgol yn unig. Er enghraifft, fe gymrodd 6 wythnos dros wyliau haf 2024 i osod paneli solar yn Ysgol Llanbedrog, ac roedd angen aros hyd nes gwyliau haf 2025 cyn gwneud gwaith pellach i osod pympiau gwres. Rydym hefyd wrthi'n ail-fodelu faint o drydan fydd ei angen ar gyfer nifer o'n hadeiladau wrth i ni fesur os fydd angen i ni osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Serch hynny mae'r gwaith yn parhau, gyda chynlluniau eisoes ar waith i osod rhagor o baneli PV ar 22 safle (ysgolion, cartrefi gofal a swyddfeydd) erbyn diwedd 2025.

**Prosiect 10 –** Bu'r cyngor yn llwyddiannus i ddenu grant sylweddol i ariannu prosiect peilot i osod pympiau gwresogi ar 3 safle, ac fe gytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu 10% o gostau cyfatebol (£194,535). Mae cymal 1 o osod y pympiau gwres ar safleoedd ysgolion wedi dechrau yn ystod gwyliau haf 2024 a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau haf 2025. Bellach, mae pympiau gwres wedi eu gosod mewn 5 o'n hysgolion. Gweler hefyd y cysylltiad rhwng y prosiect hwn â phrosiect 9.

**Prosiect 11 –** Bydd ffaniau awyru yn cael eu gosod ar safle 1 ysgol ac 1 cartref gofal fel rhan o'r prosiect pympiau gwres (Prosiect 10).

**Prosiect 12** - Cytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu £416,617 tuag at gostau rhedeg cynllun peilot er mwyn gosod goleuadau LED mewn 6 safle. Mae gwaith gosod y goleuadau wedi llithro oherwydd roedd angen blaenoriaethu amser i osod pympiau gwres, ond mae'r Uned Ynni a'r Uned Cynnal a Chadw wedi cydweithio er mwyn parhau â'r gwaith yn Ysgol Friars dros haf 2025, gyda'r bwriad i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd yr arbedion carbon ac ariannol yn cael eu mesur cyn penderfynu gwerth ymestyn y cynllun i amnewid goleuadau ar draws weddill stad y cyngor.

## Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

**Prosiect:**

13. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 13 –** Nid yw'r prosiect yma'n flaenoriaeth ar hyn o bryd gan fod y costau ariannol o gysylltu â'r grid cenedlaethol mor uchel, ac oherwydd na fedr y Cyngor, o dan drefniadau

adrodd data presennol, hawlio'r 'credyd carbon' ar unrhyw drydan a gynhyrchir. Serch hynny, mae'r Cynllun Ynni Lleol wedi adnabod cyfleoedd i ddatblygu ffermydd solar a byddwn yn parhau i drafod sut i ariannu prosiectau peilot o'r fath. Gweler hefyd brosiect 9.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

14. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
15. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig.
16. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi.
17. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl.

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 14 –** Er mwyn cael y budd mwyaf o unrhyw gynlluniau i arbed ynni, megis gosod paneli solar neu bympiau gwres, mae'n angenrheidiol i wella ffabrig adeiladau yn gyntaf.

Yn ystod 2024/25 bu'r Cyngor yn llwyddiannus i ddenu grant o £1.7M drwy gynllun grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru er mwyn uwchraddio cartref preswyl Plas Ogwen ym Methesda i safon EnerPHit, sef *'retrofit'* Passivhaus. Mae'n bosib mai hwn fydd y cartref preswyl cyntaf o'i fath ym Mhrydain. Mae disgwyl i'r gwaith arwain at arbediad o 80% mewn allyriadau carbon yn deillio o wresogi.

**Prosiect 15 –** Mae sylw wedi ei roi i'r mater hwn wrth greu'r Cynllun Ynni Lleol (Prosiectau 2 & 7), ac hefyd wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039.

**Prosiect 16 –** Mae prosiectau 1-17 yn cyfrannu at y nod hwn.

**Prosiect 17 –** Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28 mae prosiectau ar y gweill i arbed ynni, leihau defnydd o bapur a lleihau gwastraff. Bellach, yn 2025/26 mae cytundeb newydd mewn lle i ddarparu peiriannau argraffu a llungopïo fydd yn arwain at leihad mewn costau ariannol ac allyriadau carbon.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi’u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Gweler Prosiect 15 uchod.

# 7. Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o fflyd y cyngor yn 2024/25 yn 24% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 2% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 3% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r allyriadau carbon o gymudo staff yn 2024/25 yn 17% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 34% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 6% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r allyriadau carbon o deithio busnes yn 2024/25 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 34% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o gynnydd ers 2023/24.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (ultra low emission vehicles).
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd
4. Lleihau teithio busnes
5. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** – Ers mabwysiadu ein Cynllun Fflyd Werdd 2023-29 fis Ionawr 2023 ein polisi yw i brynu cerbydau trydan (EV) newydd ble mae'n bosib wrth i'r fflyd bresennol o geir petrol a disel ddod i ddiwedd eu hoes. Ar ddiwedd 2024/25 bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn denu grant o £124,379 gan Lywodraeth Cymru er mwyn prynu 11 cerbyd trydan: 9 fan fechan a 2 fws mini. Fe ddylem weld arbedion ariannol yn ogystal ag arbedion carbon wrth i'r cerbydau newydd gael eu defnyddio yn ystod 2025/26.

Erbyn diwedd 2024/25 roedd 79 cerbyd trydan a 9 cerbyd Hybrid yn rhan o'r fflyd, sef 43% o'r holl geir a faniau yr ydym yn berchen arnynt. Rydym wedi cyfrifo defnydd trydan y cerbydau yma o fewn ffigurau fflyd ar gyfer 2024/25 yn hytrach nag o fewn defnydd trydan adeiladau, fel y gwnaethom yn 2023/24. Er hynny, mae ein fflyd trydan yn gyfrifol am 0.4% yn

unig o holl allyriadau fflyd y Cyngor, sy’n dangos y gwahaniaeth mae’r newid hwn wedi ei wneud i’n taith i sero net.

**Prosiect 2** – Bu’r cyngor yn llwyddiannus yn denu grant o £406,897 ar ddiwedd 2024/25 er mwyn gosod 21 o bwyntiau gwefru ar 11 o safleoedd y Cyngor, ynghyd â 6 batri ar 6 safle fydd yn gallu storio ynni sy’n cael ei gynhyrchu gan ein paneli solar fydd yn eu tro yn gallu bwydo’r pwyntiau gwefru.

Erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd yna 52 pwynt gwefru yn weithredol ar 11 safle, gyda rhaglen waith i osod rhagor o bwyntiau dros 6 safle ychwanegol eisoes wedi cychwyn yn ystod 2025/26.

**Prosiect 3** - Erbyn diwedd 2023/24 roedd y cyngor yn berchen ac yn rheoli 38 pwynt gwefru i’r cyhoedd mewn 10 lleoliad ac roedd 14 pwynt gwefru ychwanegol mewn 4 o safleoedd yn eiddo i’r cyngor yn cael eu rheoli gan Trafnidiaeth i Gymru. Rydym fel cyngor yn cydweithio â Thrafnidiaeth i Gymru a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio lleoliadau pwyntiau gwefru cyhoeddus. Roedd nifer llawer uwch o beiriannau wedi eu gosod, ond yn aros i’r cysylltiad trydan gael ei awdurdodi.

Llwyddwyd i ddenu grant o £105,000 o gronfa ULEV er mwyn ein galluogi i osod pwyntiau gwefru yn ystod 2024/25. Mae ein rhaglen barhaus i osod pwyntiau gwefru cyhoeddus yn parhau yn ystod 202/26 a byddwn yn ei hadolygu wrth asesu anghenion y dyfodol.

**Prosiect 4** – Rydym fel cyngor yn cynnal nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn rhithiol, gan gynnwys pob un o brif gyfarfodydd y cyngor – Cyngor Llawn, Cabinet, Craffu, Cynllunio – gan leihau’n sylweddol yr angen i deithio i ganolfannau gwaith. Mae’r dull yma o weithredu wedi arwain at ostyngiad sylweddol o 34% mewn allyriadau carbon o deithio busnes ers 2019/20. Er hyn, gwelwyd gynnydd bychan o 4% rhwng 2023/24 a 2024/25 a hynny wrth i ragor o gyfarfodydd ac ymweliadau safle gael eu gwneud mewn ceir petrol a disel personol yn hytrach na thrwy gyfarfodydd rhithiol. Ers i'r Cyngor fabwysiadu’r Cynllun Gweithio Hybrid mae angen i staff weithio o leoliad gwaith am 2 ddiwrnod yr wythnos (ar sail llawn amser), felly mae niferoedd y teithiau busnes wedi cynyddu.

Wrth symud ymlaen rydym wedi dechrau galluogi staff i fod yn defnyddio cerbydau fflyd trydan y Cyngor yn hytrach na cheir personol. Rydym hefyd am wella cywirdeb y data am allyriadau carbon y ‘fflyd lwyd’, neu’r defnydd o gerbydau personol i wneud teithiau busnes, er mwyn gallu casglu gwybodaeth am gerbydau trydan yn ogystal â phetrol a disel.

**Prosiect 5** - Un o lwyddiannau mawr system drafnidiaeth integredig yw’r gwasanaeth bysiau Sherpa’r Wyddfa, sef rhwydwaith o wasanaethau bws o amgylch dalgylch yr Wyddfa sy’n cynyddu opsiynau teithio llesol er mwyn lleihau’r problemau parcio mewn mannau poblogaidd yn Eryri. Ers cyflwyno’r system archebu ymlaen llaw ym maes parcio Pen y Pass yn 2021, a gwasanaeth cynyddol ar Sherpa’r Wyddfa, dim ond 2 achos o barcio peryglus sydd wedi bod ar Fwlch Llanberis

lle mae'r heddlu wedi cael eu galw – cymhariaeth amlwg â blynyddoedd blaenorol.

Yn Awst 2024, defnyddiodd 72,296 o bobl y gwasanaeth Sherpa, cynnydd o 79% ers Awst 2023 a dyma'r tro cyntaf i'r nifer o deithwyr fynd yn uwch na 70,000 mewn mis.

## Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

**Prosiect:**

6. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 6 –** Mae 32% o holl allyriadau fflyd y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn deillo o gerbydau (HGV yw'r mwyafrif) sy'n rhan o'r gwaith o gludo gwastraff. Nid ydym o'r farn bod yna opsiynau trydan neu hydrogen addas ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd fydd yn ein galluogi i symud oddi wrth y cerbydau disel presennol. Er hyn, mae trosi'r fflyd o gerbydau trwm i fod yn defnyddio trydan neu hydrogen yn broses hir dymor, ac mae swyddogion y cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar eu prosiect Hwb Hydrogen a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhannu datblygiadau newydd ac arfer dda ymysg awdurdodau lleol.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

7. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
8. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
9. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 7 ac 8** - Fe wnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, y mae'r cyngor yn aelod ohono, fabwysiadu'r Siarter Teithio Llesol yn ystod 2024/25. Mae Grŵp Tasg Teithio Llesol o fewn y cyngor yn arwain ar waith i annog teithio llesol drwy dreialu gwahanol gymhellion i staff newid arferion teithio dyddiol, ac mae ein pencampwyr teithio llesol wedi bod yn annog staff i newid eu harferion teithio i'r gwaith. Datblygiad newydd cyffrous oedd creu ap sy'n cymharu cost ariannol ac allyriadau carbon taith ar fws a thaith car, ac fe arweiniodd hyn at osod her teithio ar fws i staff. Cynhaliwyd sesiwn yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru fis Tachwedd 2024 i staff dreialu beiciau trydan ar y cyd â menter Yr Orsaf o Benygroes, ac mae hyn wedi arwain at nifer o sesiynau tebyg yn ystod 2025/26.

Mae gan y cyngor Gynllun Ceir Gwyrdd a Chynllun Beics Gwyrdd ar gael i'r rhan fwyaf o staff, sef cynlluniau aberthu cyflog er mwyn lesu car trydan/hybrid neu feic newydd. Rydym wedi bod yn annog staff i gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd yma, gan gynnal sawl diwrnod agored er mwyn treialu beiciau trydan. Mae cyfanswm o 32 o staff wedi manteisio ar y cynllun beic ac 16 wedi lesu car trydan neu hybrid yn ystod 2024/25.

**Prosiect 9 –** Bu sawl prosiect hir-dymor ar y gweill yn ystod 2024/25 - Llwybrau cerdded a beicio diogel ar Ffordd Penrhos, Bangor; llwybrau newydd a gwella mynediad i Ysgol Rhostryfan ac Ysgol Treferthyr, Cricieth, ynghyd â mân welliannau i rannau eraill o'r rhwydwaith. Mae'r cyngor yn gwarchod a datblygu rhwydwaith o Lonydd Glas ar draws y sir, sy'n cynnig cyfanswm o 31.5 milltir o lwybrau cerdded a beicio diogel. Ail-agorwyd llwybr Lôn Las Ogwen yn ystod y flwyddyn ar ôl uwchraddio'r strwythurau arni. Mae llwybrau cyhoeddus, hawliau tramwy a llwybrau sy'n rhan o rwydwaith Llwybr Arfordir Cymru hefyd yn cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd er lles trigolion ac ymwelwyr. Gweler hefyd Brosiectau 5, 7 & 8 uchod.

**Prosiect 10** – Mae trafodaethau wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn rhwng y cyngor a mudiadau ynni cymunedol er mwyn ymchwilio i'r posibilrwydd i gydweithio ar brosiect i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar feysydd parcio. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2025/26.

## Sylwadau pellach

Fe gymerodd Cyngor Gwynedd gamau mawr ymlaen yn ystod 2024/25 er mwyn ehangu ein fflyd o gerbydau trydan, ac mae hynny'n amlwg wedi dwyn ffrwyth gan mai dim ond 0.4% o holl allyriadau'r fflyd sy'n deillio o gerbydau trydan.

Mae 32% o allyriadau'r fflyd yn deillio o gerbydau trwm sy'n casglu gwastraff, felly dylid nodi mai o dan y pennawd fflyd, yn hytrach na gwastraff, y mae'r allyriadau yma'n cael eu cofnodi. Fel y nodwyd uchod, ar hyn o bryd nid oes opsiynau trydan amgen i'r cerbydau HGV disel, ac felly bydd yn anodd iawn i ostwng yr allyriadau fflyd gwastraff ymhellach.

Er ein bod wedi amnewid ceir a faniau bychan petrol a disel am rai trydan wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes, nid ydym yn anffodus wedi llwyddo i leihau y nifer o gerbydau sydd yn ein fflyd. Mae'r galw cynyddol am wasanaethau, yn ogystal â'r angen i fod â fflyd sy'n gwasanaethu sir sy'n fawr yn ddaearyddol, yn golygu bod lleihau y milltiroedd sy'n cael eu teithio yn her fawr. Er hyn, mae'r gwaith yn parhau yn 2025/26 er mwyn rhesymoli niferoedd y cerbydau yn ein fflyd er mwyn cynnal gwasanaethau angenrheidiol tra hefyd yn lleihau allyriadau carbon teithiau ein fflyd.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Un o sgil-effeithiau positif cynyddu'r ddarpariaeth o drafnidiaeth cyhoeddus yn ardal Eryri (Prosiect 5) yw bod yr achosion o barcio anghyfrifol a pheryglus wedi lleihau. Mae hyn yn ei dro wedi helpu i warchod bioamrywiaeth ar ymylon ffyrdd ac yn agos at leoliadau sy'n cynnal bioamrywiaeth sy'n fregus.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae Prosiectau 5, 8 a 9 uchod yn rhedeg ochr yn ochr a gwaith y Cyngor i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus, ac i gynnal a chadw tiroedd. Tra'n gofalu am rwydwaith o lonydd glas, llwybrau beicio a cherdded y sir rydym wedi bod yn gwarchod ymylon llwybrau a ffyrdd er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am rwydwaith Hawliau Tramwy sydd oddeutu 3,800km o hyd ac yn agored i gerddwyr, marchogwyr, beicwyr, ceffyl a throl a cherbydau modur.

# 8. Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2024/25 yn 0% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 100% o ostyngiad ers 2019/20 ac ers 2023/24.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
2. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
3. Lleihau defnydd papur

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 1, 4, 5 a 6 –** Bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nifer o fentrau cymunedol ar brosiectau i roi hwb i'r economi gylchol yng Ngwynedd, oll wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bu'r prosiectau canlynol yn rhedeg yn llwyddiannus yn ystod 2024/25: Sied Werdd gydag Antur Waunfawr, , Gofodau Ffiws ac Ar y Lon gyda Msparc, a Caffis Trwsio. Fel rhan o'r prosiect Ffiws, mae'r Gronfa Cylchol wedi clustnodi arian grant o £319,156 i 24 o fentrau ledled Gwynedd. Pwrpas y gronfa yw cefnogi mentrau i weithredu mewn modd mwy cylchol, i ail-ddefnyddio ac/neu leihau eu gwastraff. Dechreuwyd wasanaeth newydd yn ystod 2024/25 pan sefydlwyd Sied Baent mewn 4 canolfan ailgylchu i ail-ddosbarthu paent i'r cyhoedd: Llandegai, Pwllheli, Garndolbenmaen a Dolgellau.

**Prosiect 2 –** Gorffennwyd rhaglen waith o osod biniau ailgylchu cyhoeddus ar draethau poblogaidd, gyda'r rhai olaf wedi eu gosod yn dilyn gorffen gwaith ail-ddatblygu yn Ninas Dinlle. Mae gwaith yn parhau i osod y biniau yn ein safleoedd gwersylla dros dro, Arosfan. Rydym yn asesu'n barhaus yr angen i osod biniau ailgylchu cyhoeddus mewn safleoedd ar draws y sir, felly byddwn am osod biniau yn nhrefi Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Dolgellau fel rhan o waith ehangach i 'wella canol trefi'. Gan fod cynnydd yn y swmp o wastraff stryd wedi ei ailgylchu, erbyn diwedd y flwyddyn daeth yn amlwg bod angen i ni gymryd cam yn ôl er mwyn mesur os ydym yn casglu'r gwastraff yn y ffordd fwyaf effeithlon.  Yn 2025/26 byddwn felly'n ail-asesu gofynion fflyd casglu gwastraff er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau prin.

**Prosiect 3 –** Un newid i'n trefniadau gweithio mewnol sydd wedi aros ers cyfnod Covid 19 yw lleihau defnydd o bapur mewn swyddfeydd, a phenderfyniad i beidio argraffu papurau ar gyfer cyfarfodydd oni bai bod yna eithriad rhesymol dros wneud.

Yn ystod y flwyddyn buom yn paratoi cytundeb 5 mlynedd newydd ar gyfer argraffyddion ar draws safleoedd y Cyngor, gyda'r niferoedd wedi eu lleihau. Erbyn diwedd 2024/25 roedd cynllun a thendr newydd wedi ei lunio yn barod i'w gyhoeddi, a bydd y trefniadau newydd yn lleihau'n sylweddol ar ddefnydd papur ac yn arbed ynni.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiect:**

4. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio (Caffis Trwsio)

### Be wnaethom ni?

Gweler Prosiect 1 uchod.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiect:**

5. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
6. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 5** – Gweler Prosiect 1 uchod.

**Prosiect 6** – Fe agorwyd Cronfa Grant Bwyd newydd ar gyfer 2024/25 i gefnogi cynlluniau cymunedol sy'n mynd i'r afael a lleihau gwastraff bwyd, ail-ddosbarthu bwyd gweddilliol gan fynd i'r afael a thlodi a fforddiadwyedd bwyd. Ariannwyd y gronfa gyda grant o £40,000 gan Lywodraeth Cymru.

## Sylwadau pellach

Pan yn sôn am 'wastraff' rydym yn cyfeirio at wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan drigolion a busnesau Gwynedd, yn ogystal â'r gwastraff y mae Cyngor Gwynedd ei hun fel sefydliad yn gyfrifol amdano.

Mae'r allyriadau o dan y pennawd 'gwastraff' yn dellio o brosesau trin gwastraff, tra fod yr allyriadau sy'n deillio o gasglu a chludo'r gwastraff i gael ei brosesu wedi eu cyfri o dan y pennawd 'fflyd'. Mae 32% o allyriadau fflyd yn 2024/25 yn deillio o gasglu a chludo gwastraff.

Mae newidiadau pellach wedi eu gwneud i'r fethodoleg o gyfrifo allyriadau carbon gwastraff yn 2024/25. Bellach mae pob dull o drin gwastraff, ar wahân i dirlenwi, (ee. ailgylchu, hylosgiad,

treulio anerobig ayb) yn rhoi ffigwr o sero i ni. Mae holl wastraff gweddilliol trigolion a busnesau Gwynedd yn cael ei drin ar safle Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, ble mae'n cael ei losgi i gynhyrchu ynni, ac felly nid oes gwastraff yn mynd i dirlenwi.

Buom hefyd yn cychwyn datblygu Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd yn ystod 2024/25, a bydd hon yn cael ei chyhoeddi yn ystod 2025/26.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Wrth ddatblygu'r prosiectau sy'n rhan o'r cynllun i hybu'r economi gylchol fe fuom yn ymgynghori'n barhaus gyda'n holl bartneriaid cymunedol, ac mae swyddogion ar sawl lefel o fewn y cyngor wedi bod yn ystyried effaith y prosiectau ar fioamrywiaeth.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 4, 5 a 6 uchod yn cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 gan fod ein hybiau bwyd a gerddi cymunedol wedi asesu eu dylanwad ar fioamrywiaeth, a'u datblygu mewn modd na fydd yn niweidio'r amgylchedd o'u cwmpas.

# 9. Llywodraethu

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
2. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** – Rydym yn rhannu gwybodaeth am brosiectau y mae'r cyngor yn ymwneud â nhw yn rheolaidd drwy'n cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg, ac hefyd yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd i arbed ynni ac arian drwy'r gynllun Eco4.

Buom yn cynnal ymgyrchoedd lleol mewn cymunedau penodol yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio newid ymddygiad trigolion i'w hannog i ailgylchu mwy.

Mae prinder adnoddau yn parhau yn rwystr i ni symud ymlaen gyda'r gwaith ehangach o ddylanwadu a newid arferion trigolion, ond mae hyn yn fater y byddwn yn rhoi sylw iddo wrth adolygu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Rydym hefyd yn rhan o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i wireddu eu Cynllun Llesiant. Un o 3 Amcan Llesiant y cynllun yw "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon".

**Prosiect 2 -** Mae ein sioeau teithiol arbed ynni yn rhannu gwybodaeth am gefnogaeth ariannol sydd ar gael i drigolion i addasu eu cartrefi, yn ogystal a chynnig gwybodaeth am ddulliau arbed ynni ac arian.
Mae ein prosiectau eraill ninnau fel cyngor hefyd yn cyfrannu at helpu a dylanwadu ar arferion trigolion – Cymunedau Glan a Thaclus, prosiectau'r economi gylchol megis cefnogi hybiau bwyd, Ffiws/Caffi Trwsio (gweler pennod 'Gwastraff' am ragor o fanylion).

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiect:**

3. Aelodau etholedig a staff sydd:
   - yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
   - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
   - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 3** – Cafodd yr e-fodiwl hyfforddiant Hinsawdd a Natur ei lansio ar ddechrau 2024/25, ac mae'n cael ei hyrwyddo'n gyson er mwyn annog staff ac aelodau etholedig i'w gwblhau. Mae aelodau Bwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor, sef y grŵp mewnol sy'n gosod cyfeiriad strategol ac yn monitro datblygiad y gwaith, yn derbyn gwybodaeth rheolaidd am faterion perthnasol cyn iddynt gymryd penderfyniad, gan gynnwys penderfyniadau ariannol.

Gwelwyd gynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn yn yr wybodaeth a newyddion am ddigwyddiadau sy'n cael eu rhannu gyda staff ac aelodau drwy ein newyddlen newydd. Mae'r adran Hinsawdd a Natur ar y fewnrwyd, y newyddlen, a'r wybodaeth sy'n cael eu rhannu drwy fwletin mewnol a thudalen Facebook staff yn ddull effeithiol o rannu gwybodaeth ac yn helpu i newid ymddygiad yn ogystal.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiect:**

4. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol
5. Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 4 –** Mae gan y cyngor ddau gynllun sy'n llwyddiannus yn denu ymgeiswyr, sef cynllun prentisiaethau a chynllun hyfforddai proffesiynol ('Cynllun Yfory') ar gyfer graddedigion. Fis Medi 2024 fe gychwynnodd ein Hyfforddai Proffesiynol Newid Hinsawdd cyntaf. Dechreuodd y gwaith hefyd er mwyn recriwtio Hyfforddai Proffesiynnol Ecolegydd Cynllunio a Phrentis Ynni ar gyfer haf 2025.

**Prosiect 5** – Treuliwyd lawer o amser dros y flwyddyn yn datblygu Cynllun Ynni Lleol newydd i Wynedd sy'n mynd ger bron y Cabinet yn ystod 2025/26, ac mae Strategaeth Gwefru Cerbydau EV hefyd yn cael ei ddatblygu, eto i gael ei fabwysiadu yn 2025/26.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Gwaith wedi cael ei wneud gyda Chynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o dan brosiectau 3 a 5 yn cyfrannu at wireddu Amcanion 1 a 6.

# 10. Caffael

Roedd 72% o allyriadau carbon y cygnor yn ystod 2024/25 yn deillio o'n prosesau caffael, sydd yn 35% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 34% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r dull o fesur allyriadau carbon caffael, neu'r gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar wariant yn unig. Yn syml, po fwyaf yw'r gwariant, po fwyaf yw'r allyriadau. Mae'r gost gynyddol o brynu nwyddau a gwasanaethau yn arwain felly at gynnydd mewn allyriadau carbon o dan y pennawd 'caffael'. Mae'r fformiwla i fesur yr allyriadau hefyd wedi ei newid ers 2023/24, felly er bod y cynnydd mewn gwariant mewn maes megis gofal cymdeithasol yn gymhedrol, mae cynnydd yn y fformiwla yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allyriadau.

Y meysydd ble mae gwariant uchaf y Cyngor drwy gytundebau caffael ydi: gofal iechyd a chymdeithasol; bwyd a nwyddau; adeiladwaith.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

### Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** – Fe wnaeth y Cyngor ddewis canolbwyntio ar helpu busnesau sy'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol yn ystod 2024/25 er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon ac i fesur yr allyriadau. Bydd hyn yn helpu i leihau allyriadau Gwynedd fel sir, ac hefyd yn rhoi opsiwn i ni fel Cyngor i fesur allyriadau caffael yn fwy cywir – ar sail adroddiadau Cynllun Rheoli Carbon yn hytrach na gwerth ariannol y cytundeb. Buom yn cydweithio â Busnes Cymru er mwyn cynnal gweithdai ar-lein i gwmnïau, ac yna maent wedi derbyn cefnogaeth un i un gan Busnes Cymru er mwyn creu Cynllun Rheoli Carbon.

Fe wnaethom newidiadau i'r gofynion yn y cytundebau trafnidiaeth ysgolion yn 2024/25, gan osod mwy o bwyslais ar wobrwyo darparwyr oedd yn defnyddio cerbydau llai llygrol. Buom hefyd yn cefnogi cychwyn prosiect peilot 'Llysiau o Gymru i Ysgolion Cymru', gan ddod â thyfwyr bwyd organig lleol ynghyd ag ysgolion lleol. Edrychwn ymlaen at weld datblygiad y prosiect hwn yn 2025/26.

**Prosiect 2** –Mae'r gwaith o dan Prosiect 1 uchod yn cefnogi darparwyr i fedru mesur eu hallyriadau carbon yn fwy cywir, ond er mwyn cael y gorau o hyn mae angen i swyddogion y Cyngor hefyd ddeall sut i'w cefnogi. Er mwyn helpu gyda hyn fe wnaethom adolygu

ein Polisi Caffael Cynaliadwy a datblygu canllawiau i staff sy’n comisiynu cytundebau er mwyn goruchwilio sut mae darparwyr yn adrodd ar leihau carbon.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni’r amcanion ar waith

Mae’r ddau brosiect uchod yn cyfrannu at y ddau Amcan yma, gan y byddai derbyn a monitro Cynlluniau Rheoli Carbon yn rhoi tystiolaeth i ni o sut mae darparwyr am warchod bioamrywiaeth.

# 10. Defnydd Tir

Mae holl diroedd y cyngor (sy'n cynnwys safleoedd 'llwyd' sydd wedi eu hadeiladu) yn amsugno gwerth 3,123,254 kg$CO_2$e net o garbon yn 2024/25. Mae hyn 47% yn llai na 2019/20 ac yn 1% o gynnydd ers 2023/24.

Mae gwrthbwyso'r carbon sy'n cael ei amsugno yn erbyn ein allyriadau carbon yn cyfrannu at leihau'r bwlch i sero net.

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiectau:**

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Cymru
5. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1 a 7 –** Parhawyd â gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar 8 safle o goetir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac fe wnaethpwyd gwaith atgyweirio ym Mharc Dudley, Waunfawr, ac yng nghoedlan hynafol Parc Meurig, Bethesda, sydd bellach yn ddiogel ac yn agored i'r cyhoedd ei mwynhau.

**Prosiect 2 –** Adnabwyd darnau o dir y Cyngor i drosi i ddolydd blodau gwyllt sydd yn cynyddu gallu'r tir i amsugno mwy o garbon. Mae plannu dolydd blodau gwyllt, yn enwedig ar ymylon ffyrdd, bellach yn waith parhaus, ac rydym yn rhannu gwybodaeth am fanteision hyn yn rheolaidd gyda thrigolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Map Data Cymru ar declyn ar-lein fydd yn galluogi Llywodraeth Leol i fesur gwerth carbon tiroedd sy'n eiddo iddynt.

Mae'r gwaith o adnabod tiroedd ar gyfer eu potensial i leihau llifogydd yn digwydd wrth greu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd (gweler Adran 12).

**Prosiectau 3 a 4 –** Sefydlwyd dwy feithrinfa ar raddfa fach fel rhan o brosiectau Partneriaeth Natur Gwynedd. Bwriad y meithrinfeydd yw tyfu cyflenwad o goed lleol i blannu ar dir cyhoeddus. Daeth pwysigrwydd hyn yn amlwg ar ôl Storm Darragh, pan fu'n rhaid ail-blannu er mwyn disodli coed oedd wedi dymchwel.

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn partneriaethu gyda nifer o sefydliadau allanol i gynnal a chadw meithrinfeydd coed brodorol a choed cynhenid i Wynedd. Cydweithiwyd gyda thri cartref gofal i hybu garddio llesol, gan gynnwys gwarchod egin blanhigion at ddefnydd y Cyngor.

**Prosiect 5** – Yn ystod y flwyddyn fel lansiwyd prosiect Ffermio Bro, sef rhaglen ffermio mewn ffordd natur gyfeillgar wedi ei weinyddu gan AHNE Llŷn - Llŷn AONB - Hafan.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

6. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
7. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 6** - Yn anffodus mae'r galw i ymdrin â nifer cynyddol o goed sy'n dioddef o Glwy yr Onnen yn rhoi rhagor o bwysau ar ein adnoddau prin. Er hynny, mae'r tîm sy'n gyfrifol am y gwaith wedi gallu defnyddio meddalwedd Ezytreev er mwyn cadw cofnod manwl o unrhyw goeden sy'n gorfod cael ei dymchwel, gan gynnwys ei gwerth carbon. Maent wedyn yn cydweithio â'r Tim Bioamrywiaeth a mudiadau cymdeithasol er mwyn plannu coed newydd.

**Prosiect 7** – Gweler Prosiect 1 uchod.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae Cyngor Gwynedd yn arwain gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd, sef casgliad o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithredu er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth yn y sir. Un o egwyddorion gweithredu sylfaenol y Bartneriaeth yw ymgynghori â chymunedau er mwyn cynllunio prosiectau ar lawr gwlad.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Mae'r cyngor wedi parhau i gydweithio â system gofnodi Cofnod sy'n ein cynorthwyo i greu gwaelodlin ar gyfer bioamrywiaeth ar draws Gwynedd.

# 11. Ecoleg

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

## Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

**Prosiectau:**

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 1** – Roedd gwaith wedi parhau yn ystod y flwyddyn i lunio ein Cynllun Adfer Natur diwygiedig ar gyfer y sir ac ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, a bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2025/26.

**Prosiect 2** - Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Adfer Natur, rydym hefyd wedi bod yn defnyddio prosesau Cofnod i fapio rhywogaethau, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Rydym hefyd yn y broses o lunio Asesiad Isadeiledd Gwyrdd fel rhan o'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd.

## Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

**Prosiectau:**

3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd (safleoedd tirlenwi)
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiectau 3 a 5** – Bu'r gwaith o blannu dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd newydd i beillwyr yn parhau yn ystod 2024/25. Roedd Partneriaeth Natur Gwynedd wedi creu dros 50 hectar o ddol blodau gwyllt ar diroedd y Cyngor, ac mae hyn yn 25% o darged cenedlaethol i'r Partneriaethau dros Gymru. Bu'r gwaith o greu dolau blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd yn cael ei ymestyn ym Meirionnydd, ac fe fyddwn am gomisiynu gwaith arolygu effaith y gwaith hwn i wella bioamrywiaeth lleol.

**Prosiectau 3 a 6** - Mae yna ddau safle yng Ngwynedd arferai fod yn safleoedd tirlenwi sydd bellach wedi eu trosi yn safleoedd Tirlenwi Gwyllt i warchod a hyrwyddo natur. Cafodd gwaith cynnal a chadw a phlannu coed ei wneud yn Llwyn Isaf ger Clynnog a Ffridd Rasus ger Harlech ac mae'r ddwy safle hefyd wedi derbyn 'safon aur' gan Restor, yr hwb rhyngwladol ar gyfer adferiad natur. Mae'r cysylltiadau â sefydliadau academaidd

wedi cryfhau, sydd wedi arwain at lwybr i ddatblygu 'gyrfaoedd gwyrdd' ac ymweliadau gan ysgolion.

**Prosiect 4 & 5** – Mae'r cyngor yn arwain gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd, sef casgliad o fudiadau cymunedol, cynghorau cymuned ac unigolion sy'n gweithio er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth yng Ngwynedd (Wales Biodiversity Partnership - Gwynedd).

Derbyniodd amryw o gynghorau tref a mudiadau cymunedol gymorth ariannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd yn ystod 2024/25, ac mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys gwelliannau i erddi cymunedol, gwelliannau i safleoedd gwyrdd trefol, diwrnodau agored mewn perllannau cymunedol, prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion, a mapiau cymunedol.

Yn ychwanegol at hyn fe wnaeth y Cyngor gynnal nifer o weithgareddau i drigolion lleol, a buont yn boblogaidd iawn. Daeth dros 300 i ddiwrnod agored 'coed a natur' ym Mhlas Glyn y Weddw, ac mae nifer o weithgareddau clirio traethau a chasglu hadau morwellt wedi eu trefnu i'r gymuned leol gan Pen Llŷn a'r Sarnau Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Mae gwybodaeth am waith Partneriaeth Natur Gwynedd, Pen Llŷn a'r Sarnau, AHNE Llŷn a thimau bioamrywiaeth y Cyngor oll yn cael eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn ogystal ag yng nghylchgronau Llygad Llŷn ac O Dan y Don.

**Prosiect 6** – Yn ychwanegol at y gwaith sydd wedi ei ddisgrifio o dan brosiectau 3, 4 a 5, mae gwaith Pen Llŷn a'r Sarnau Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yn hanfodol bwysig i warchod iechyd bioamrywiaeth arfordir Llŷn a Meirionnydd. Mae'r gwaith a wneir i blannu a gwarchod morwellt yn cyfrannu'n sylweddol at amsugno carbon, ond nid yw'n bosib i ni fel Cyngor gyfri gwerth hyn o fewn ein ystadegau amsugno carbon ein hunain ar hyn o bryd.

## Blaenoriaethau Parhaus

**Prosiectau:**

5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

### Be wnaethom ni?

**Prosiect 5** – Gweler Prosiect 4 uchod.

**Prosiect 6** – Gweler Prosiect 3 uchod.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r holl waith yr ydym fel Cyngor yn ymgymryd ag o drwy'r Bartneriaeth Natur Lleol yn cael ei gynllunio neu ei ddarparu ar y cyd â sefydliadau, cymunedau neu ysgolion lleol.

Mae prosiectau 1 a 2 hefyd yn cyfrannu at y 3 amcan uchod.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.